

Ochr-yn-Ochr Cymru
Ceredigion / Sir Benfro



Cymorth gan gymheiriaid yn eich cymuned

DIGWYDDIADAU CYMORTH GAN GYMHEIRIAID GORLLEWIN CYMRU

Ydych chi'n dod i'n helpu ni ddathlu Ochr-yn-Ochr Cymru a'r holl waith gwych sydd wedi cael ei wneud gan grwpiau cymunedol ledled Cymru? Rydym ni'n gobeithio dod â'r holl grwpiau yma ynghyd yn ein digwyddiadau Cymorth gan Gymheiriaid ym mis Hydref, ynghyd â phencampwyr cefnogaeth gan gymheiriaid, comisiynwyr lleol a siaradwyr gwadd. Byddwn ni'n darparu cinio a bydd cyfle i chi roi cynnig ar ennill hamper yn llawn o'r cynnyrch lleol hyfryd yma!



Gan mai nifer cyfyngedig o leoedd sydd ar gael, rydym ni wedi neilltuo uchafswm o ddau le i bob grŵp cymunedol. Os nad ydych chi wedi derbyn eich gwahoddiad (sy'n cynnwys doler RSVP), cysylltwch â ni – mae'r manylion yn y panel ar yr ochr.

DYDDIADAU:

CANOLFAN Y MORLAN, RHODFA'R GOGLEDD, ABERYSTWYTH, SY23 2HH: Dydd Mercher 9 Hydref 10.30am – 2pm

CANOLFAN PICTON, HWLFFORDD, SA61 1UG: Dydd Mercher 16 Hydref 10.30am – 2pm

Am ragor o fanylion, cysylltwch â Rob, Emma neu Tarek ar 01970 626225.

Newyddlen
MEDI 2019

01970626225
07958788172

sidebyside@mindaberystwyth.org

Facebook – Side by Side
Cymru at Mind Aberystwyth



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Ochr-yn-Ochr Cymru
Ceredigion / Sir Benfro



Cymorth gan gymheiriaid yn eich cymuned

GWEITHDAI DYSGU AR Y CYD AR GYFER MIS TACHWEDD

Os nad ydych chi eisoes wedi gwneud hynny, beth am ymuno â ni mewn 'gweithdy dysgu ar y cyd' i ddarganfod mwy am Ochr-yn-Ochr Cymru, rhedeg grŵp cefnogaeth gan gymheiriaid, a sut i ymgeisio am gyllid o hyd at £250 ar gyfer eich grŵp?

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth a chofrestru eich diddordeb ar gyfer y dyddiadau ym mis Tachwedd ar eich tudalen Facebook. Gallwch hefyd gysylltu â Rob ar 07958788172 neu ysgrifennu at sidebyside@mindaberystwyth.org.

LLEOLIADAU: I'W CADARNHAU

Dydd Mercher 6 Tachwedd - Ceredigion

Dydd Mercher 13 Tachwedd – Sir Benfro

PANEL GRANTIAU MIS TACHWEDD



Diolch i Menter Silian a Chlub Ukulele Llanbedr Pont Steffan am y lluniau gwych yma o'u grwpiau yn mwynhau ffrwyth eu llafur yn dilyn y ceisiadau grant llwyddiannus! Cynhelir ein cyfarfod panel nesaf dydd Mawrth 24 Medi, felly bydd angen i ni dderbyn eich cais erbyn 5pm ddydd Gwener 20 Medi. Gallwch lawr lwytho'r ffurflen yn Saesneg neu yn y Gymraeg ar wefan Mind Aberystwyth neu dudalen Facebook Ochr-yn-Ochr Cymru, lle gallwch hefyd ddod o hyd i ganllawiau ynglŷn â sut i'w chwblhau. Bydd unrhyw geisiadau sy'n cael eu gwrthod yn cael eu dychwelyd gydag adborth a chanllawiau ynglŷn â sut i wella ar gyfer y dyfodol.

Os nad ydych yn dymuno derbyn y newyddlen electronig hon yn y dyfodol, cysylltwch â Mind Aberystwyth ar 01970 626225 neu

Newyddlen
MEDI 2019

01970626225
07958788172

sidebyside@mindaberystwyth.org

Facebook – Side by Side
Cymru at Mind Aberystwyth



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government